

PHB 33

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Public Health (Wales) Bill

Ymateb gan: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Response from: Older People's Commissioner for Wales

er for Wales  
nru

☎ 029 2044 5030

☎ 08442 64 06 80

[www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Caerdydd

CF99 1NA

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

16 Rhagfyr 2016

Annwyl Gadeirydd,

Diolch yn fawr am y cyfle i gyfrannu at eich ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)<sup>1</sup>. Rwy'n falch o weld y Bil yn dychwelyd i'r Cynulliad ac rwy'n gobeithio gweld fersiwn derfynol yn dod yn ddeddf a fydd yn mynd i'r afael â'r problemau iechyd y cyhoedd sylweddol sy'n wynebu pobl Cymru.

Yn fy nhystiolaeth atodedig, rwyf wedi dewis canolbwyntio ar dri maes yn y Bil yn benodol. Mae'r ddau faes cyntaf, toiledau cyhoeddus ac asesiadau o'r effaith ar iechyd, yn bresennol eisoes yn y Bil ac rwy'n eu croesawu mewn egwyddor, ond mae gennyf welliannau manwl y gellid eu gwneud. Nid yw'r trydydd maes, unigrwydd ac arwahanrwydd, wedi'i gynnwys yn y Bil ar hyn o bryd ond, gan ei fod un o'r prif broblemau iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar bobl hŷn ac eraill mewn cymdeithas, credaf ei fod yn haeddu cael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi ac y byddwch yn eu hystyried wrth i chi fwrw ymlaen â'ch ymchwiliad. Cysylltwch â mi neu'r Arweinydd Cymunedau, Llywodraeth Leol a Lles, Iwan Williams ([REDACTED], [REDACTED]), yn ddi-oed, os hoffech drafod y materion yn fanylach.

Cofion cynnes,



**Sarah Rochira**

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

<sup>1</sup> <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=234&RPID=1007994869&cp=yes>

# Ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

## Darparu toiledau cyhoeddus

1. Croesewir y cynnig bod Awdurdodau Lleol yn llunio ac yn cyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Ond, nid yw'n mynd yn ddigon pell ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan bobl fynediad i doiledau cyhoeddus. Anaml iawn y mae pobl hŷn yn galw am strategaethau a'r hyn y maent ei angen, yn hytrach, yw ymrwymïadau a champau pendant i sicrhau y gallant barhau â'u bywydau beunyddiol a chael cysylltiad â'u cymunedau drwy ddarparu toiledau cyhoeddus a gwasanaethau anstatudol hanfodol eraill. Mae gan bobl hŷn yng Nghymru yr hawl i ddisgwyl cael toiledau cyhoeddus sydd ar agor, yn lân ac yn hawdd cael atynt. Er y bydd modd i Awdurdodau Lleol ddatblygu eu strategaethau eu hunain, mae'n rhaid i'r Bil sicrhau rhywfaint o gysondeb er mwyn cael dull unffurf o ddarparu toiledau cyhoeddus ledled Cymru.
2. Fel yr wyf wedi'i bwysleisio'n gyson a'i amlygu yn fy adroddiad 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru'<sup>2</sup>, mae toiledau cyhoeddus a gwasanaethau cymunedol eraill yn asedau hanfodol, ac yn hollbwysig o ran cynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant pobl hŷn. Mae toiledau cyhoeddus hefyd yn cyfrannu at yr agenda atal, yn cadw pobl hŷn yn weithgar ac yn lleihau'r angen i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
3. Mae darpariaeth dda o doiledau cyhoeddus yn anghenraid o ran iechyd y cyhoedd. Mae cau toiledau cyhoeddus yn effeithio ar iechyd corfforol (mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ddiodef o anymataliaeth y bledren neu'r coluddyn), iechyd meddwl (mae'r ofn o fethu cael mynediad i doiledau yn gallu arwain at arwahanrwydd ac iselder), ac iechyd amgylcheddol (mae'r risg o haint yn sgil baeddu ar y stryd yn cynyddu wrth i gyfleusterau toiledau cyhoeddus gau). Mae cau neu leihau mynediad i doiledau

---

<sup>2</sup> [http://www.olderpeoplewales.com/wl/news/news/14-02-25/The\\_Importance\\_and\\_Impact\\_of\\_Community\\_Services\\_within\\_Wales.aspx#.WFLE\\_fXXKUJ](http://www.olderpeoplewales.com/wl/news/news/14-02-25/The_Importance_and_Impact_of_Community_Services_within_Wales.aspx#.WFLE_fXXKUJ)

cyhoeddus yn niweidiol i iechyd y cyhoedd ac yn cael effaith andwyol ar yr economi, gan y bydd pobl hŷn, gan gynnwys trigolion lleol, ymwelwyr a thwristiaid yn llai tebygol o ymweld â llefydd.

4. Fel y mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei gydnabod, mae tystiolaeth bod darpariaeth wael o doiledau cyhoeddus yn cael effeithiau negyddol ar bobl hŷn yn arbennig, a'r rheini'n effeithiau anghymesur yn aml. Ni fydd llawer o bobl hŷn yn gadael eu cartrefi heb y sicrwydd y bydd modd iddynt gael mynediad i doiled cyhoeddus yn eu pentref, eu tref neu eu dinas pan fydd yr angen yn codi<sup>3</sup>. Caewyd bron i 20% o'r toiledau cyhoeddus dan reolaeth Awdurdodau Lleol rhwng 2004 a 2013. Canlyniad hyn oedd bod pobl hŷn yn fwy agored i unigrwydd ac arwahanrwydd, a bod angen pecynnau iechyd a gofal cymdeithasol drud arnynt<sup>4</sup>.
5. Croesewir y cynnig fod toiledau cyhoeddus yn cynnwys cyfleusterau newid babi a llefydd newid i bobl anabl, ond gellid gwneud mwy o lawer. Mae'n rhaid i doiledau cyhoeddus fod yn llefydd glân, diogel a hawdd cael atynt i bobl hŷn a phobl eraill, gyda chanllawiau, rampiau i gadeiriau olwyn a chymhorthion clywed a gweld i'r rheini â phroblemau symud neu sydd wedi colli un neu ragor o'r synhwyrau.
6. Mae'n rhaid cael adnoddau digonol yn gefn i'r gofyniad i Awdurdodau Lleol asesu'r angen lleol am doiledau cyhoeddus. Rwy'n llawn ymwybodol o'r heriau ariannol difrifol sy'n wynebu Awdurdodau Lleol, ac yn cefnogi pob ymdrech i roi iddynt yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu toiledau cyhoeddus. Nid wyf yn gwbl siŵr fod y cynllun Grant Toiledau Cymunedol gynt, lle mae modd i'r cyhoedd ddefnyddio toiledau busnesau lleol, yn fodel a fydd yn gallu cymryd lle darpariaeth o doiledau cyhoeddus yn ddigonol.
7. Mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo'n bryderus neu'n swil ynglŷn â defnyddio Cynlluniau Toiledau Cymunedol, ac yn dibynnu'n hytrach ar doiledau cyhoeddus dibynadwy a hawdd

---

<sup>3</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10224-em/pri-ld10224-em-w.pdf>

<sup>4</sup> <http://www.itv.com/news/wales/2014-06-30/public-toilet-closures-in-wales-shortsighted/>

cael atynt. At hynny, yn ôl ymgyrch 'P am Pobl' Senedd Pobl Hŷn Cymru, roedd 85% o'r ymatebwyr wedi dweud y byddent yn fodlon talu swm bach i ddefnyddio toiled cyhoeddus<sup>5</sup>.

8. Fel rhan o'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru<sup>6</sup>, mae pob Awdurdod Lleol wedi llofnodi Datganiad Dulyn, sef ymrwymiad i sefydlu cymunedau cyfeillgar i oedran yn eu hardal. Mae darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol mewn sefydlu cymunedau o'r fath, ac mae'n rhaid i'r Bil fynd ymhellach a sicrhau bod pobl hŷn a phobl eraill yn gallu cael mynediad i doiledau cyhoeddus ledled Cymru.

### **Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Llesiant**

9. Un o'r prif wahaniaethau rhwng y Bil diwygiedig a'i ragflaenydd yw cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Rhan 5)<sup>7</sup>. Croesewir y gofyniad i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol, ac mae'n helpu i gryfhau'r Bil.
10. Bydd yr asesiadau hyn yn helpu cyrff cyhoeddus i gynnal a gwella iechyd eu poblogaeth, ond byddai cynnwys llesiant hefyd yn darparu dull mwy cyson ac ategol.
11. Rwy'n gobeithio y bydd yr asesiadau hyn yn gallu mynd i'r afael â rhai o'r materion yr amlygais yn flaenorol ynghylch absenoldeb gordewdra a gweithgarwch corfforol yn y Bil, ond mae'n rhaid i'r Bil hefyd sicrhau bod yr Asesiad yn ystyried yr elfen feddyliol o iechyd unigolion, yn ogystal â'r elfen gorfforol.
12. Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (a Llesiant) yn gallu helpu i gynnal asedau cymunedol hanfodol, megis toiledau cyhoeddus a meinciau parc, er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl hŷn yn gallu gadael y tŷ a byw bywyd gweithgar.
13. Mae'n rhaid i Asesiadau o'r Effaith fynd y tu hwnt i iechyd ac ystyried llesiant unigolion hefyd. Mae'n rhaid canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl hŷn a phobl eraill, gan sicrhau bod cynigion ac ymyriadau cyrff cyhoeddus yn cyfrannu at eu hiechyd, eu

---

<sup>5</sup> <http://www.welshsenateofolderpeople.com/Documents/P%20is%20for%20People%20Questionnaire.pdf>

<sup>6</sup> <http://www.ageingwellinwales.com/wl/home>

<sup>7</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10796/pri-ld10796-w.pdf>

hannibyniaeth a'u gallu i gymryd rhan yn y gymuned a chyfrannu ati. Mae asesiadau o'r fath yn darparu dull mwy cyfannol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddarparu dealltwriaeth fwy trylwyr a chraff o sut mae cynlluniau a gwasanaethau yn effeithio ar hyder a hapusrwydd pobl a'u gallu i fynd o gwmpas eu pethau a chymryd rhan. Mae bwrw ymlaen ag asesiadau o'r effaith ar iechyd a llesiant yn ategu fy model Ansawdd Bywyd i bobl hŷn<sup>8</sup>, fy nangosyddion llesiant ar gyfer pobl hŷn<sup>9</sup>, a hefyd yn cyd-fynd â'r dangosyddion cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<sup>10</sup> a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol sy'n cefnogi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)<sup>11</sup>.

## **Unigrwydd ac Arwahanrwydd**

13. Mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn broblem iechyd y cyhoedd ddifrifol sy'n effeithio ar fwy a mwy o bobl hŷn ym mhob cwr o Gymru, ac sy'n cael ei gwaethygu gan gau gwasanaethau cymunedol 'cwbl hanfodol' megis bysiau cyhoeddus, toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd, canolfannau dydd, pryd ar glud a chynlluniau cyfeillio. Mae unigrwydd yn gallu cael effaith ddifrifol ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol unigolion, ac mae ei effaith ar farwolaeth yn debyg o ran ei maint i ysmegu 15 sigarét y dydd.
14. Amcangyfrifir bod dros 75% o fenywod a thraean o ddynion dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain. Heb ffordd o adael eu cartrefi, neu gyda llai o ymweliadau gan weithwyr cymunedol a darparwyr gwasanaethau, bydd mwy a mwy o bobl hŷn yn teimlo'n unig ac ar wahân, a bydd hyn yn arwain at effeithiau niweidiol o ran eu hiechyd meddwl a thebygolrwydd uwch o gamddefnyddio alcohol. Mae angen mynd i'r afael â'r 'llofruddion tawel' hyn ar frys, ac oherwydd hynny mae

---

<sup>8</sup> [http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Fframwaith\\_Gweithredu.sflb.ashx](http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Fframwaith_Gweithredu.sflb.ashx)

<sup>9</sup> [http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Wellbeing\\_Indicators\\_w.sflb.ashx](http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Wellbeing_Indicators_w.sflb.ashx)

<sup>10</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?skip=1&lang=cy>

<sup>11</sup> <http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy>

Unigrwydd ac Arwahanrwydd yn thema flaenoriaeth yn y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru<sup>12</sup>.

15. Rwyf eisoes wedi galw am gynnwys Unigrwydd ac Arwahanrwydd ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gan fy mod yn credu ei fod ymhlith y prif broblemau iechyd y cyhoedd sy'n wynebu ein cenedl. Hoffwn weld dyletswydd yn cael ei rhoi ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, i sicrhau eu bod yn ystyried unigrwydd ac arwahanrwydd yn eu cynlluniau llesiant lleol, a hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu bod pobl hŷn yn asedau posib, ac yn anelu i leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac ar wahân yn eu cymuned. Rwyf hefyd yn gweld rôl i Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel yr asiantaeth iechyd y cyhoedd cenedlaethol sy'n bodoli i warchod a gwella iechyd a llesiant, o ran mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ar y lefel genedlaethol.
16. Mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn cael effaith ddinistriol ar iechyd, annibyniaeth a llesiant pobl hŷn, ac mae'n effeithio ar lawer o grwpiau eraill yn y gymdeithas hefyd. Mae ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan y Groes Goch Brydeinig a Co-Op wedi nodi sawl pwynt sbarduno sy'n gallu achosi pobl i deimlo'n unig ac ar wahân. Mae'r rhain yn cynnwys dod yn fam am y tro cyntaf, cael diagnosis o salwch neu anabledd difrifol, ac ymddeol<sup>13</sup>.
17. Er fy mod yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael ag Unigrwydd ac Arwahanrwydd yn ei Rhaglen Lywodraethu<sup>14</sup>, rwy'n teimlo bod hyn yn fater mor bwysig, sy'n effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, y dylid ei gynnwys ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) hefyd.

---

<sup>12</sup> <http://www.ageingwellinwales.com/wl/home>

<sup>13</sup> [http://www.coop.co.uk/Corporate/PDFs/Coop\\_Trapped\\_in\\_a\\_bubble\\_report.pdf](http://www.coop.co.uk/Corporate/PDFs/Coop_Trapped_in_a_bubble_report.pdf)

<sup>14</sup> <http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

## Casgliad

18. Fel yr wyf wedi'i amlygu uchod, mae'n rhaid i'r ddyletswydd ynghylch toiledau cyhoeddus, er yn gam yn y cyfeiriad cywir, fynd ymhellach i sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i doiledau cyhoeddus yn eu cymuned, a chynnwys elfen o gysondeb ledled Cymru.
19. Bydd cynnwys Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd yn y Bil ar ei ail wedd yn helpu i hybu iechyd pobl, ond er mwyn iddynt fod yn effeithiol a chyd-fynd â blaenoriaethau eraill, rwy'n credu y dylent gynnwys llesiant eu poblogaeth yn ogystal â'i hiechyd.
20. Er fy mod yn croesawu'r elfennau hyn o'r Bil, rwy'n teimlo bod cyfle sylweddol yn cael ei golli drwy hepgor unigrwydd ac arwahanrwydd, un o'r prif broblemau iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar bobl hŷn a phobl eraill ar draws y gymuned. Hoffwn weld dyletswydd yn cael ei rhoi ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried unigrwydd ac arwahanrwydd yn eu cynlluniau llesiant lleol ac anelu i leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac ar wahân yn eu cymuned.